# CYFARFOD AR Y CYD AELODAU'R CABINET AR GYFER TREFNIADAETH A'R GWEITHLU A MATERION GWLEDIG, CYDLYNIANT CYMUNEDOL A PHOLISI CYNLLUNIO

**DYDD MAWRTH 19EG MAWRTH 2024**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: C.A. Davies a P.M. Hughes (Aelodau o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
L. Evans - Rheolwr Polisi ac Ymgysylltu
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod: 1.00 yp – 1.15 yp

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 2. LLOFODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU Y CYFARFOD AR Y CYD A GYNHALIWYD AR 7FED TACHWEDD, 2022

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau cyfarfod ar y cyd yr Aelodau Cabinet a gynhaliwyd ar y 7fed Tachwedd, 2022 yn gofnod cywir.**

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2022-23

Bu'r Aelodau Cabinet yn ystyried Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-23.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn crynhoi ac yn disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol, ynghyd â symleiddio ac atgyfnerthu'r ddeddf fel ei bod yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Adroddiadau blynyddol yw un o'r prif gyfleoedd i adolygu, monitro ac adfyfyrio ac i Awdurdod gofnodi'r gwaith parhaus y mae'n ei wneud i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Mae hyn yn cynnwys adfyfyrio ynghylch a yw ei drefniadau a'i gamau gweithredu yn effeithiol ac yn parhau'n briodol.

Prif bwrpas yr Adroddiad Blynyddol hwn yw cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor i adrodd ar ei gynnydd wrth gyflawni'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu y dylai pob awdurdod cyhoeddus o dan y dyletswyddau penodol yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol - mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2022 hyd nes 31 Mawrth 2023.

Fel rhan o'r adroddiad, dangosir cynnydd mewn perthynas â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol, sef:

1. Bod yn gyflogwr blaenllaw.
2. Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchodedig yn llywio dyluniad gwasanaethau.
3. Cymunedau diogel a chydlynus sy’n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal.
4. Gwella mynediad i'n gwasanaethau a'n hamgylchedd.

Bydd adroddiadau blynyddol yn cynorthwyo awdurdodau i fonitro eu gwaith eu hunain, yn ogystal â darparu tryloywder i randdeiliaid. Mae'n rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys y wybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2022-23.**

| ______________________________ | ________________ |
|---|---|
| **AELOD O’R CABINET** | **DYDDIAD** |